PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SWYDDOG DATBLYGU CYMRU IFANC

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Datblygu Cymru Ifanc |
| **Yn Adrodd i'r canlynol:** | Rheolwr Cymru Ifanc |
| **Lleoliad:** | Caerdydd – gweithio'n ystwyth o'ch cartref neu yn y swyddfa gyda chyfarfodydd misol o leiaf wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd |
| **Oriau Gwaith:** | 21 awr yr wythnos (rhan-amser) |

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hybu cyfle cyfartal. Seiliwyd hynny ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a glynir at y drefn honno ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Gwyddom fod amrywiaeth yn meithrin creadigrwydd ac arloesedd. Rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd cyfartal, bod yn deg a chynhwysol a bod yn rhywle sy'n croesawu pawb.

Gan hynny, rydym am annog ceisiadau yn arbennig gan ymgeiswyr sy'n debygol o fod wedi'u tangynrychioli yng ngweithlu Plant yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl ag amhariad neu gyflwr iechyd, beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, a phobl ifanc o dan 25 oed.

Ein panel recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer y cyfweliad. Ni fyddant yn gweld eich manylion cysylltu nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gafwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

I arbed costau, dim ond trwy e-bost y gallwn gydnabod ein bod wedi derbyn eich cais.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 9am ar 6 Awst 2024**

**Cynhelir y cyfweliadau ar 12 neu 13 Awst 2024**

# Gwybodaeth Bellach

| | |
|---|---|
| **Contract:** | Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2025 gyda phosibilrwydd o estyniad |
| **Oriau Gwaith:** | 21 awr yr wythnos |
| **Graddfa Gyflog:** | £34,000 y flwyddyn pro rata |
| **Gwyliau Blynyddol:** | 25 diwrnod y flwyddyn pro rata |
| **Dull Talu:** | Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis |
| **Pensiwn:** | Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan. |
| **Gweithle:** | Gweithio hybrid o'ch cartref neu yn ein swyddfa yng Nghaerdydd – Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd (SPARK), Spark, Heol Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ, y Deyrnas Unedig ac mewn digwyddiadau achlysurol ledled Cymru |

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylech ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.** Os na wnewch hynny, bydd gennych lawer llai o gyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Datblygu Cymru Ifanc |
| **Yn Adrodd i'r canlynol:** | Rheolwr Cymru Ifanc |
| **Lleoliad:** | Caerdydd – gweithio'n ystwyth o'ch cartref neu yn y swyddfa |
| **Oriau Gwaith:** | 21 awr yr wythnos |

**Prif ddiben y rôl:**

Ochr yn ochr â'i gydweithwyr, bydd Swyddog Datblygu (Cymru Ifanc) yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu rhaglen gyfranogi Cymru Ifanc – Young Wales Plant yng Nghymru, trwy weithio'n uniongyrchol gydag ystod amrywiol o blant a phobl ifanc a'r ymarferwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, gan wneud y canlynol:

Darparu gwybodaeth a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed gan Weinidogion a llunwyr polisi trwy Cymru Ifanc a gweithgareddau cyfranogi eraill, er mwyn llywio datblygiad polisi ac ymarfer tra'n grymuso plant a phobl ifanc.

Cefnogi gweithrediad Erthygl 12 o CCUHP trwy gofnodi llais y plentyn er mwyn llywio datblygiadau polisi.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

• Ymgynghori â phlant a phobl ifanc, dadansoddi'r ymatebion a llunio adroddiadau ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd.

• Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n effeithiol ym mhob portffolio a ddatganolwyd i Weinidogion yng Nghymru.

• Cynllunio a chydlynu cyfarfodydd a digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

• Cyrraedd nifer eang o blant a phobl ifanc ledled Cymru ac ymgysylltu â nhw yn rhan o weithgareddau ymgynghori Cymru Ifanc – gan gydnabod amrywiaeth a chymhlethdod y boblogaeth o blant/pobl ifanc ar draws Cymru gyfan.

• Datblygu a darparu cyfleoedd i feithrin gallu pobl ifanc a'u galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a dod yn arweinwyr cymheiriaid effeithiol.

• Datblygu dulliau o sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc gyfranogi yn y gwaith a chyfrannu at ei ddatblygiad.

• Creu cynnwys ar gyfer y wefan a’r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a’r rhai sy’n eu cefnogi, dathlu cyflawniadau a lledaenu enghreifftiau o arferion da sy’n cefnogi cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc.

• Datblygu partneriaethau a pherthnasoedd gwaith da gyda gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector gan gydweithio er mwyn tynnu sylw at y materion a’r pryderon sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc.

• Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais rheolwr perthnasol Plant yng Nghymru

Nid yw’r rhestr hon yn cynnwys popeth, gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i’w gilydd, gan gyfrannu at gyflawni gweithgareddau’r sefydliad.

# Manyleb Person

**Cyffredinol**

Mae'r swydd hon yn gyfle cyffrous i weithio ar flaen y gad wrth ddatblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd angen i chi weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sefydliad, gyda phartneriaid mewn sefydliadau partner a chyda rhanddeiliaid allanol er mwyn cynnal gwaith ymgynghori ac ymgysylltu cyfranogol. Yn gyffredinol, bydd angen i ddeilydd y swydd fedru gweithio'n hyblyg ac adeiladu ar berthnasoedd gwaith presennol a newydd er mwyn cyflawni rhaglen waith heriol.

**Gofynion Allweddol - Hanfodol**

1. Wedi cymhwyso at lefel gradd gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad o gefnogi a gweithio gyda phlant a phobl ifanc, megis gweithio yn y sector gwirfoddol, mewn llywodraeth leol, ymchwil gymdeithasol, gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol, addysg neu addysgu ffurfiol.

2. Profiad o gynllunio a chyflwyno rhaglenni unigol a chydweithredol gwreiddiol, lefel uchel, grwpiau ymgynghori neu ymgyngoriadau, neu grwpiau ffocws, gan ddangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol – yn benodol y rhai hynny sy'n addas ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc, moeseg a chyfle cyfartal.

3. Profiad o gasglu data, ei ddadansoddi a llunio casgliadau perthnasol, paratoi ac ysgrifennu papurau ac adroddiadau o ansawdd uchel ar gyfer gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc.

4. Gwybodaeth ardderchog am Hawliau Plant a'u cymhwysiad ymarferol.

5. Profiad o waith amlddisgyblaeth, gyda'r sector statudol a'r sector gwirfoddol.

6. Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm, yn unol â'r canllawiau cytunedig gan ddangos sgiliau trefnu da a'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith er mwyn cadw at derfynau amser.

7. Gallu diamheuol i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol, unigolion a'r cyfryngau, gan ddefnyddio ystod o sgiliau cyflwyno llafar, ysgrifenedig ac eraill.

8. Profiad o drefnu cyfarfodydd, deall deinameg grwpiau, cadw at derfynau amser a symud materion ymlaen i'w cwblhau.

9. Gallu dangos ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-hiliol a bod yn effro iddynt.

10. Gallu i gynllunio, cyflwyno a chydlynu mwy nag un ymgynghoriad neu raglen yn effeithiol ar yr un pryd.

11. Gwybodaeth ardderchog am arferion Diogelu ar waith, gan gynnwys diogelu cyd-destunol a digidol ac ymrwymiad i ddysgu a datblygu'n barhaus yn y maes hwn.

**Gofynion Allweddol - Dymunol**

1. Cymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol, megis y gwyddorau cymdeithasol, datblygiad ieuenctid a chymuned, addysg neu hyfforddiant penodol mewn perthynas â chefnogi plant a phobl ifanc.

2. Medrusrwydd o ran datblygu a chynnal a chadw cronfeydd data.

3. Profiad o ddatblygu ar gyfer y we.

4. Trwydded yrru gyfredol / gallu i fodloni gofynion teithio'r swydd

4. Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig neu ymrwymiad i ddysgu gwneud hynny.

# Gwybodaeth Gefndir

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sector cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Cyfuno a chwyddo llais ar y cyd dros newid trawsffurfiannol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu ymhlith ein haelodau.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn.  Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth.  Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain. Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr. http://www.childreninwales.org.uk/